

Mewnforiwyd peth crochenwaith wedi'i daflu o'r Cyfandir i Gymru yn nechrau'r canoloesoedd, ac erbyn y 10fed ganrif roedd crochenwaith Eingl-Sacsonaidd o Loegr yn ymddangos yng Nghymru.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: [amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws](http://amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws) neu ar Twitter @SF\_Archaeology



## 'Crochenwaith D' *Derivées sigillées paléochrétienne Atlantique (DSPA)*

Cafodd crochenwaith bwrdd llwyd wedi'i daflu ar olwyn gyda slip tywyll (weithiau'n ddu) ei enwi'n 'Grochwneith D' gyntaf ym Mhrydain. Cafodd ei gynhyrchu yn Ffrainc yn y 6ed a'r 7fed ganrif, mwy na thebyg ar arfordir yr Iwerydd yn ardal Bordeaux a dyffryn Loire, a'i enw heddiw yw *Derivées sigillées paléochrétienne Atlantique (DSPA)*. Cyrhaeddodd Gymru yn y 6ed ganrif.

## At beth fyddai DSPA yn cael ei ddefnyddio?

Byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer platiau a bowlenni i baratoi a gweini bwyd a *mortaria* i baratoi llysiau a ffrwythau. Roedd grit garw yng ngwaelod y mortarium yn helpu i falu'r bwyd.

Daw'r lliw llwyd o gael ei danio mewn atmosffer is, ond o gael eu llosgi gall ddychwelyd at liw llwydfelyn wedi ocsidio (fel yn Hen Gastell ger Abertawe). Cafodd nifer o esiamplau eu canfod yn Ninas Powys, ger Caerdydd, yn ogystal ag yn Sir Benfro.

## 'Crochenwaith E'

Cynhyrchwyd amrywiaeth o jariau, powlenni a jygiau grit garw yn Ffrainc o'r 6ed ganrif hyd at ddiwedd y 7fed ganrif.

Cyrhaeddodd 'Crochenwaith E' Iwerddon, de Cymru ac arfordir gorllewin Prydain o ddiwedd y 6ed ganrif, ond yn bennaf yn nechrau'r 7fed ganrif.

## Nodweddion 'Crochenwaith E'

Mae'r deunydd yn glai gwyn garw gydag arwyneb smotiog wedi'i achosi gan grit cwarts onglog ymwithiol.

Mae'r lliw yn wyn ar y cyfan, ond gall fod darnau oren neu lwyd, a gall amodau'r pridd ei afliwio.

Mae'n gallu cael ei gymysgu â chrochenwaith garw Rhufeinig, a chrochenwaith Ffrengig o ddiwedd y Canoloesoedd a Saintonge a Normandi.

## Crochenwaith Stafford

Crochenwaith wedi'i daflu ar olwyn a gynhyrchwyd ger Stafford yng ngogledd-orllewin Teyrnas Mersia yn y 10fed a'r 11eg ganrif OC.

Mae'r deunydd melynffrown golau, garw yn llawn cwarts, peth tywodfaen a mica.

Gwyddom ei fod i'w ganfod yn bennaf yng ngorllewin a gogledd Mersia, ond mae rhai esiamplau ar arfordir gogledd Cymru.